

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNED, TAI AC ASEDAU**  
**16 MEHEFIN 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Mercher, 16 Mehefin 2022.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Geoff Collett, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Mared Eastwood, Veronica Gay, Dennis Hutchinson Kevin Rush, Brian Lloyd a Ray Hughes

**DIRPRWY:** Cyngorydd David Wisinger (ar ran David Cox)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cyngorydd Patrick Heesom yn bresennol fel arsylwr.

**CYFRANWYR:** Cyngorydd Dave Hughes, Aelod Cabinet Tai; Cyngorydd Billy Mullin, Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Llywodraethu) ac Aelod Cabinet Rheolaeth Gorfforaethol ac Asedau; Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Uwch Reolwr Tai ac Asedau, Rheolwr Budd-daliadau, Rheolwr Tai a Rheolwr Refeniw. Prif Gyfrifydd ac Ymgynghorydd Perfformiad Strategol.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a'r Swyddog Gwasanaethau Etholiadol

**1. PENODI CADEIRYDD**

Dywedodd yr Hwylusydd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Llafur. Fel Cyngorydd, roedd Ian Dunbar wedi'i benodi i'r swydd hon gan y Grŵp, gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r penderfyniad.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cyngorydd Ian Dunbar fel Cadeirydd y Pwyllgor.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Roedd y Cyngorydd Ron Davies wedi enwebu'r Cyngorydd Ray Hughes i'w benodi fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor. Eiliwyd hyn gan y Cyngorydd David Wisinger.

O'i roi i bleidlais, penodwyd y Cyngorydd Ray Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cyngorydd Ray Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

#### **4. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai 2021 fel cofnod cywir a chawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Ron Davies a Kevin Rush.

#### **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

#### **5. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED**

Hysbysodd yr Hwylusydd y Pwyllgor bod dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol wedi eu hychwanegu at y rhaglen gwaith i'r dyfodol, yn dilyn cymeradwyaeth mewn cyfarfod blynyddol o'r Cyngor Sir. Awgrymwyd bod yr Hwylusydd yn cysylltu â'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog (Tai ac Asedau) i lenwi'r rhaglen gwaith i'r dyfodol, a gyflwynir i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

Roedd yna un cam gweithredu wedi codi o'r cyfarfod blaenorol. Roedd yr Hwylusydd wedi gofyn am wybodaeth gan swyddogion perthnasol a byddai'n dosbarthu'r wybodaeth hon ar ôl ei derbyn.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Bod y cynnydd a wnaed gyda'r camau gweithredu heb eu cwblhau yn cael ei nodi.

#### **6. DIWEDDARIAD DIWYGIO LLES**

Cafwyd diweddariad ar yr effeithiau y mae diwygiadau lles yn parhau i'w cael ar drigolion Sir y Fflint a'r gwaith sy'n digwydd i'w lliniaru ac i gefnogi'r aelwydydd perthnasol gan y Rheolwr Budd-daliadau. Mae'r pandemig wedi effeithio'n arwyddocaol ar aelwydydd agored i niwed hefyd ac roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am amrywiaeth o fesurau a ddatblygwyd i helpu'r rhai hynny sydd wedi'u heffeithio gan y pandemig a'r gefnogaeth a roddwyd i drigolion er mwyn ceisio lliniaru'r effeithiau negyddol.

Siaradodd y Rheolwr Budd-daliadau am y cynnydd yn y llwyth gwaith gostyngiad Treth y Cyngor a'r cynnydd ers y llynedd a oedd wedi'i adfer drwy gronfa gyllid Llywodraeth Cymru, oedd yn dangos y darlun mwy o'r pandemig a'r pecynnau cymorth sydd ar gael.

Roedd y Rheolwr Budd-daliadau yn mynegi ei phryder am ddiwedd y cynllun Ffyrlo ym mis Medi, gan nodi y byddai hyn yn cael effaith negyddol ar breswylwyr diamddiffyn. Ychwanegodd y byddai'r gefnogaeth Pandemig a

thaliadau ynysu yn parhau ar gyfer y taliadau £500, ond dywedodd bod nifer y bobl oedd yn hawlio wedi gostwng. Hefyd, ychwanegodd bod y bonws Gofalwyr nesaf yn dal yn ei le ac roedd y taliad nesaf yn mynd allan eto ym mis Gorffennaf.

Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau bod yna gynnydd wedi bod mewn preswylwyr oedd yn ceisio cefnogaeth oedd yn gadarnhaol.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm am y gwaith yr oeddent yn ei wneud. Mewn ymateb i gwestiwn am gefnogaeth, dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau bod atgyfeiriadau am gefnogaeth i'r Tîm Cymorth Diwygio Lles wedi cynyddu'n sylweddol.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Geoff Collett.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith parhaus i reoli'r effeithiau y mae'r Diwygiadau Lles yn eu cael ac y byddant yn parhau i'w cael ar yr aelwydydd mwyaf diamddiffyn Sir y Fflint.

## **7. INCWM RHENT TAI – ALLDRO DIWEDD BLWYDDYN A'R SEFYLLFA DDIWEDDARAF AR GYFER 2021/22**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) y diweddariad gweithredol ar berfformiad o ran casglu incwm rhent tai ar ddiwedd blwyddyn 2020/21, yn cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf o ran casgliadau yn 2021/22.

Dywedodd y Rheolwr Refeniw y bu i'r canlyniad ar gyfer 2020/21 olygu ôl-ddyledion rhent o £1.854m o gymharu â £1.815m yn y flwyddyn flaenorol – cynnydd mewn ôl-ddyledion o £39k. Dywedodd fod y data'n gadarnhaol o'i gymharu â rhagolygon cynharach ar gyfer ôl-ddyledion rhent ar gyfer y gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, yn arbennig ar amser pan fo'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar allu rhai tenantiaid i dalu eu rhent ar amser.

Cafwyd cyflwyniad manwl gan y Rheolwr Refeniw yn trafod y meysydd canlynol:-

- Casglu Rhent: sefyllfa derfynol 2020/21;
- Casgliadau Rhent a Thueddiadau dros 6 blynedd;
- Achosion ôl-ddyledion (£250+) Mawrth 2021; a
- Chasglu Rhent: 21/22 Sefyllfa Ddiweddaraf (at wythnos 10)

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd am adleoli meddalwedd, ychwanegodd y Rheolwr Refeniw bod y meddalwedd wedi bod yn llwyddiannus yn targedu'r tenantiaid hynny oedd angen cefnogaeth. Yn anffodus, roedd tenantiaid oedd ag ôl-ddyledion o fwy na £5,000 yn tueddu i beidio cysylltu â'r Cyngor, oedd wedi arwain at eu ôl-ddyledion rhent yn parhau i gynyddu.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i'r Rheolwr Refeniw am yr adroddiad. Mewn ymateb i gwestiynau am gefnogaeth i breswylwyr, eu hangen i gael mynediad i nifer o wasanaethau cefnogaeth ac oedd preswylwyr ar y Gofrestr Tai os oedd

ganddynt ddyledion, eglurodd y Prif Swyddog y byddai tenantiaid yn cael eu rhoi ym Mand 4 ar y Gofrestr Tai nes oeddent wedi clirio eu dyledion. Hefyd, soniodd am ddiwedd y cynllun Ffyrlo fel yr amlinellwyd wrth ystyried y diweddariad Diwygiad Lles yn gynharach yn y cyfarfod a dywedodd bod yna bryder am yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar denantiaid a'r tîm cymorth. Ailgadarnhaodd nad bwriad Sir y Fflint oedd troi tenantiaid allan gan nad oedd o fudd i'r Cyngor ond amlygodd bod yna achosion difrifol ble na fyddai tenantiaid yn ymgysylltu ac yn yr achosion hynny ar ôl llawer o drafod roedd yn iawn y dylid ac y cymerir camau.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r sefyllfa diwedd blwyddyn o £1.854m ar gyfer ôl-ddyledion rhent yn 2020/21 fel y nodir o fewn yr adroddiad.

## **8. DIWEDDARIAD SAFON ANSAWDD TAI CYMRU (SATC)**

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau adroddiad oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddarparu Safon Ansawdd Tai Cymru a ddarperir gan y Cyngor drwy ei Raglen Buddsoddi Cyfalaf. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar elfennau gwaith allanol y rhaglen ynghyd â chyflawniadau hyd yma a chynnal y safon wrth symud ymlaen.

Roedd y rhaglen gwella Ffensio a Garddio wnaeth ddechrau yn 2015 wedi'i datblygu yn rhaglen fwy cynhwysfawr, ar ôl i'r mwyafrif o waith mewnol a gwaith arall gael ei gwblhau i gyrraedd cydymffurfiaeth SATC. Byddai'r rhaglen yn canolbwyntio yn bennaf ar y ffiniau eiddo yn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas ac yn unol â manyleb/gofynion y Cyngor. Hefyd wedi'i gynnwys fyddai dyraniad llwybrau, gerddi a storio. Roedd manylion y ffrydiau gwaith wedi eu hamlinellu o fewn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Brian Lloyd, cytunodd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau i drafod gyda'r Uwch Dîm Rheoli y posibilrwydd o sesiynau mynd am dro gyda Chynghorwyr yn eu Ward er mwyn i Aelodau ddangos materion sydd yn eu barn nhw angen sylw.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Ray Hughes ynglŷn â ffens a ddisodlwyd yn ei ward, roedd yr Uwch Reolwr Tai ac Asedau wedi cytuno i siarad gyda'r Cynghorydd Hughes yn dilyn y cyfarfod a threfnu ymweliad safle yn ei ward.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Ray Hughes a'i eilio gan y Cynghorydd Kevin Rush.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf yn ei flwyddyn olaf o fuddsoddiad wrth i'r Cyngor ddechrau'r cyfnod cynnal a chadw o Safonau Ansawdd Tai Cymru.

## **9. FFOEDD GWRESOGI ARDALOEDD CYMUNEDOL 2021/22**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) y ffioedd gwresogi arfaethedig i eiddo'r Cyngor sydd â chynlluniau gwresogi cymunedol a fydd yn dod i rym o 2 Awst 2021.

Mae'r ffioedd arfaethedig ar gyfer 2021/22, wedi'u nodi yn yr adroddiad, yn aros am gymeradwyaeth gan y Cabinet. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r pris i denantiaid wedi gostwng ar gyfer 2021/22 sydd, fel mewn blynyddoedd eraill, yn caniatáu i Sir y Fflint adennill costau disgwylidig o ffioedd gwresogi gan barhau i drosglwyddo manteision costau ynni is i denantiaid.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Ron Davies a'i eilio gan y Cynghorydd Ray Hughes.

### **PENDERFYNWYD:**

Bod y newidiadau i'r ffioedd gwresogi cyfredol yn adeiladau'r Cyngor sydd â systemau gwresogi cymunedol fel yr amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu nodi.

## **10. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN**

Cyflwynodd y Prif Swyddog yr adroddiad monitro diwedd blwyddyn i adolygu cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau perthnasol fel y'u nodwyd ym Mesurau Adrodd 2020/21 y Cyngor, o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor. Roedd 67% o ddangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu wedi rhagori ar eu targedau.

Roedd y Prif Swyddog yn canmol gwaith holl swyddogion o fewn y portffolio, a oedd yn amlwg yn ôl y nifer o fesurau perfformiad Gwyrdd a ddangoswyd o fewn yr atodiad i'r adroddiad. Rhoddodd ddiweddariad ar y Rhaglen Tai ac Adfywio Strategol (SHARP), gan egluro er nad oedd y targed wedi'i gyflawni ar gyfer y mesur hwn, darparwyd 149 o eiddo, gyda dros hanner y rhain yn gartrefi teulu. Hefyd, rhoddodd ddiweddariad ar y dyddiad targed Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), sydd wedi'i ymestyn gan flwyddyn ychwanegol oherwydd y pandemig.

Cafodd yr argymhelliad o fewn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Geoff Collet a'i eilio gan y Cynghorydd Mared Eastwood.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn.

## **11. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.32am)

.....  
**Y Cadeirydd**